# Panel Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru

## ADRODDIAD AR BENODIAD ARFAETHEDIG DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

### Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i gydsynio â dyletswydd statudol y Panel yn Amserlen 1, Paragraff 10(3) a 10(4) Deddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yr Heddlu 2011. Yn ôl y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Panel lunio adroddiad i'r Comisiynydd ac mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys argymhelliad ynghylch a ddylai'r ymgeisydd gael ei benodi ai peidio.

### Adolygiad o benodiad arfaethedig y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Ar 11 Ionawr, 2016, hysbysodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru'r Panel am benodiad arfaethedig y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.

Cafodd Panel Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru (CHTDC) gyfarfod ddydd Llun 1 Chwefror i drafod yr adroddiad am y penodiad arfaethedig. Mae copi o'r adroddiad ar gael i'w weld ar dudalennau PHTDC ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Agenda ar gyfer cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru ar 1 Chwefror 2016.

### Argymhellion

Ystyriodd Panel Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ac yn dilyn y Gwrandawiad Cadarnhau gydag ymgeisydd y swydd, Dr John Rose, y mae'n gwneud yr argymhelliad canlynol:

Y mae Panel Heddlu a Throseddu Heddlu De Cymru yn argymell penodi Dr John Rose i'r swydd o Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru.

**2 Chwefror 2016**